O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1398 (Cy. 170)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Rhydypennau i Bwll-glas, Ceredigion) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *25 Mai 2012*

Yn dod i rym *6 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Rhydypennau i Bwll-glas, Ceredigion) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

2. —(1)Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 6 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw darn o gefnffordd yr A487 yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 460 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4353, ger Rhydypennau, i bwynt 1540 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4353, ym Mhwll-glas.